Cyfarwyddyd ynghylch Atgyfeirio at EAGM

Hyd yma mae'r gwasanaethau EAGM wedi gweld yn bendant bod gwybodaeth fanwl gywir am atgyfeirio yn hollbwysig. Caiff yr wybodaeth ei 'gwirio' er mwyn cadarnhau a yw'r unigolyn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y gwasanaeth EAGM. Os yw'r unigolyn yn gymwys bydd yr EAGM yn prosesu a chlustnodi'r atgyfeiriadau yn gyflym a diogel er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn cael cefnogaeth gan yr EAGM cyn gynted ag y bo modd. Oherwydd hyn, mae Advocacy Experience wedi llunio'r cyfarwyddyd hwn ar gyfer atgyfeirwyr. Gall unrhyw unigolyn gael ei atgyfeirio at y gwasanaeth EAGM; fodd bynnag mae'r EAGM yn gorfod cael cyfarwyddyd gan y penderfynwr dan sylw. Rydym yn annog penderfynwyr yn bendant i atgyfeirio'n uniongyrchol os oes modd er mwyn arbed amser wrth gael cyfarwyddyd gan benderfynwr.

Meini Prawf EAGM

Er mwyn bod yn gymwys i gael y gwasanaeth EAGM, mae'r unigolyn yn gorfod bodloni pob un o'r meini prawf sydd wedi'u nodi ar y ffurflen atgyfeirio.

1) Nid oes gan yr unigolyn y galluedd i wneud penderfyniad penodol ar adeg benodol.

2) Mae'r penderfyniad i'w wneud yn gysylltiedig â:
   - ü Thriniaeth Feddygol Ddifrifol
   - ü Newid hirdymor yn y lle byw
   - ü Adolygiad gofal mewn perthynas â'r lle byw yn unig
   - ü Amddiffyn Oedolion

3) Nid oes gan yr unigolyn unrhyw deulu na ffrindiau i'w gynrychioli nag i ymgynghori â hwy neu, ym marn y penderfynwr, mae'r teulu yn amhriodol i ymgynghori â hwy ac mae'r rheswm dros y penderfyniad wedi'i gofnodi'n swyddogol.

Ardal Atgyfeirio

Mae Advocacy Experience wedi'i gomisiynu i gynnal gwasanaethau EAGM o fewn ALl penodol; felly pan mae'r unigolyn yn cael ei atgyfeirio mae'n hanfodol bwysig ei fod ef/hi

yn byw, ar y pryd, yn un o'r ardaloedd a nodwyd ar y ffurflen. Os nad yw'ch awdurdod lleol ar ein rhestr ni, nid Advocacy Experience yw'r darparydd EAGM sydd wedi'i gomisiynu ar gyfer yr ardal honno. (Am restr lawn o ddarparwyr EAGM a'r manylion cyswllt, ewch at wefan yr Adran Iechyd os gwelwch yn dda).

Manylion Cyswllt y Penderfynwr

Mae'n bwysig ein bod yn gwybod beth yw manylion cyswllt llawn y penderfynwr, am mai hwy yw'r prif gyswllt ar gyfer y gwasanaeth EAGM.

Manylion Cyswllt y Cleient

Mae'n bwysig ein bod yn gwybod ble mae'r unigolyn yn byw ar hyn o bryd er mwyn inni allu trefnu i rywun fynd i'w weld.

Y Penderfyniad i'w Wneud

Mae'n bwysig ein bod yn gwybod pa benderfyniad sy'n gorfod cael ei wneud. Os nad yw'r penderfyniad ar restr y meini prawf (er enghraifft rhywun sydd angen cefnogaeth gyda materion ariannol) yna nid yw'n briodol i'r EAGM ymwneud â hynny.

Ar ben hynny mae Advocacy Experience yn gorfod gwybod a oes nifer o benderfyniadau i'w gwneud ar gyfer yr unigolyn, er enghraifft efallai y bydd yn rhaid gwneud penderfyniad ynghylch symud unigolyn; efallai y bydd yn rhaid rhoi cychwyn ar Achos Cyfreithiol Amddiffyn Oedolion hefyd. Bydd Advocacy Experience yn derbyn ac yn monitro hyn fel 2 atgyfeiriad ac felly bydd yn rhaid iddo gael 2 ffurflen atgyfeirio gyda'r wybodaeth angenrheidiol am bob penderfyniad.

Asesiad Galluedd

Dyma fan cychwyn y gwasanaeth EAGM; byddwch cystal â dweud, yn fyr, bod asesiad galluedd wedi cael ei gynnal a rhowch ganlyniad yr asesiad. Mae'r meini prawf yn hollol glir o ran dweud bod yr unigolyn yn gorfod bod yn analluog i wneud y penderfyniad penodol; am y rheswm hwn rydym yn gofyn am gael gwybodaeth am yr asesiad galluedd.

Ffrindiau a'r Teulu

Mae'r adran hon yn gorfod dweud yn glir faint o gysylltiad â ffrindiau a'r teulu sydd gan yr unigolyn sy'n cael ei atgyfeirio. Byddwch cystal â dweud a oes gan unigolyn ffrindiau a theulu ai peidio ac a ydynt hwy, yn eich barn chi, yn briodol i ymgynghori â hwy a pham. (Am ragor o wybodaeth am hyn byddwch cystal â darllen yr adran am gwestiynau cyffredin).

Awgrymiadau Cyffredinol

Y penderfynwr yw'r person sydd yn y lle gorau i wneud yr atgyfeiriad.

Os nad ydych yn defnyddio'r system atgyfeirio ar-lein byddwch cystal â theipio'r wybodaeth ar y ffurflen atgyfeirio. Os ydych chi'n llenwi'r ffurflen atgyfeirio mewn llawysgrifen byddwch cystal ag ysgrifennu'n glir ac ehangu'r blychau (ar eich cyfrifiadur cyn argraffu) er mwyn inni allu gweld yr wybodaeth yn ddidrafferth.

Os nad y penderfynwr yw'r person sy'n llenwi'r ffurflen atgyfeirio mae'n bwysig rhoi gwybod i'r penderfynwr bod atgyfeiriad wedi'i wneud er mwyn i'r gwasanaeth EAGM allu cysylltu ag ef/hi cyn gynted ag y bo modd.

Sut i atgyfeirio at y gwasanaeth EAGM

Byddwch cystal â llenwi'r ffurflen atgyfeirio at EAGM a'i hanfon at Advocacy Matters gydag:

E-bost: IMCA@advocacyexperience.com
Ffacs: 01925 651400

Diolch yn fawr

Advocacy Experience (Prif Swyddfa)
4 Harvard Court
Quay Business Centre
Calver Road
Warrington WA2 8LT

www.advocacyexperience.com